

CLWB MYNYDDA CYMRU
CYFARFOD BLYNYDDOL 2011 – 6:00 y h., 29 Hydref, 2011
Gwesty'r "Royal Ship", Dolgellau.

1. Croesawodd y Cadeirydd, Arwel Roberts, yr aelodau i'r cyfarfod

Diolchodd i bawb am flwyddyn lwyddiannus arall yn hanes y Clwb ac yn arbennig i bawb fu'n trefnu gweithgareddau yn ystod y flwyddyn. Bu 'r penwythnosau preswyl yn hynod o boblogaidd, a hyn yn deyrnged i Llew Gwent yn arbennig, gan mai ei weledigaeth ef fu'n gyfrifol am ddod ag aelodau'r de a'r gogledd at ei gilydd a gwneud y Clwb yn wir genedlaethol.

Tynnodd sylw at y ffaith bod y Clwb yn aelod o'r Bartneriaeth Awyr Agored ac i rai aelodau fanteisio ar hyn drwy fynychu rhai o'r cyrsiau am bris rhesymol.

Mynegodd ei bryder nad yw pob aelod yn gwisgo dillad addas nac yn cario offer pwrpasol ar y mynydd yn arbennig yn y gaeaf.

Soniodd hefyd am y manteision o gael fforwm ar y wefan fel ffordd dda i'r aelodau gysylltu hefo'i gilydd.

2. Llongyfarchiadau

Llongyfarchodd y Cadeirydd Kate Jones. Tra'n dringo gyda'i chwaer daeth ar draws dringwr ungoes mewn trafferthion. Tra roedd eraill o'I chwmpas yn ceisio cysylltu a'r gwasanaethau brys dringodd Kate ato a'l achub o'I gaethgyfle. Fel cydnabyddiaeth o'i hyder a'l hunanfeddiant yn gweithredu'n gyflym ac effeithiol cyflwynwyd anrheg I Kate.

3. Ymddiheuriadau : 2

4. Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth.

Aeth y flwyddyn gyntaf fel ysgrifennydd newydd y Clwb heibio yn sydyn iawn. Cafwyd tri chyfarfod o'r pwyllgor eleni, y tri wedi eu cynnal yn ystod penwythnosau'r clwb yn Rhyd Ddu, Penrhyn Gwyr a Sir Benfro. Roedd hyn yn ffordd hwylus o gael pawb at ei gilydd ac yn arbed teithio pellteroedd yn un swydd i gyfarfodydd.

Penderfynodd y pwyllgor roi'r materion canlynol o flaen y Cyfarfod Blynyddol l'w trafod / cymeradwyo:

Gostwng tal aelodaeth aelodau dan 18 oed i £8.. Cytunwyd y dylid symud ymlaen hefo hyn.

Yn dilyn cais gan deulu Llew cyflwynwyd trefn o ofyn i arweinyddion teithiau gael pob aelod a oedd yn mynychu taith i nodi enw a rhif ffôn cyswllt ar ffurflen rhag ofn y byddai damwain yn ystod y daith a bod angen cysylltu â'r teulu ar frys. Gan fod tystiolaeth na fu hyn yn digwydd yn rheolaidd ystyriwyd a ddylid adolygu'r drefn. Awgrymwyd yn hytrach drefn lle byddai pob aelod yn cadw'r manylion yn eu sachgefn wrth fynychu teithiau. Adroddwyd y cafwyd nodyn pellach gan deulu Llew yn mynegi siom nad oedd y drefn wreiddiol i'w gweld yn gweithio, yn nodi'r pwysigrwydd o allu cysylltu â theulu unigolyn ar fyrder os angen ac yn gofyn i'r Clwb ail ystyried y mater.

Cafwyd trafodaeth yn y cyfarfod am fanteision ac anfanteision y gwahanol ddulliau o gadw cofnod o rifau cyswllt aelodau ar deithiau. Y consensws oedd y dylid sefydlu trefn fod pob aelod yn derbyn cerdyn i nodi manylion cyswllt a gwybodaeth am unrhyw gyflwr meddygol perthnasol l'w gadw yn eu sach wrth fynychu teithiau. Bydd y cerdyn yma yn cael ei anfon i

bob aelod gyda'r cerdyn aelodaeth ar ddechrau'r flwyddyn ar gyfer ei gario yn y sach ar deithiau'r Clwb. Gall arweinyddion wedyn naill ai gadw rhestr fel ag o'r blaen neu gasglu'r cardiau hyn oddi wrth aelodau ar ddechrau taith a'u dychwelyd ar y diwedd.

Bu'r pwyllgor hefyd yn trafod mabwysiadau trefn ar gyfer graddio gweithgareddau dringo ar raglen y clwb a fyddai'n rhoi gwybodaeth i aelodau am natur y gweithgaredd dan sylw ac os yn addas i ddringwyr profiadol/ dechreuwyr ayyb. Roedd consensws ymysg yr aelodau hynny sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau dringo fod y drefn yma yn addas. Cytunwyd y dylid ei mabwysiadau a gweld sut y byddai'n gweithio.

Daeth Guto a samplau o grysau T, fleeces ac ati hefo logo'r clwb arnynt i aelodau gael golwg arnynt. Gallai Guto gymryd archebion ar ddiwedd y cyfarfod a hefyd bydd manylion archebu a lluniau'r dillad yn cael eu gosod ar y safle We maes o law.

Yn olaf, ni dderbyniwyd unrhyw ffurflenni enwebu ar gyfer gwasanaethu ar bwyllgor y Clwb yn 2012. Gofynnwyd i unrhyw un hefo diddordeb i wasanaethu ar y pwyllgor y flwyddyn nesaf roi gwybod erbyn diwedd y noson. Byddai'n rhaid wedyn drafod y mater hefo swyddogion y Clwb i weld sut y gellid symud ymlaen ar hyn gyda'r tebygolrwydd y cedwir aelodaeth bresennol y pwyllgor am flwyddyn arall

5. Adroddiad yr Ysgrifennydd Gweithgareddau.

Cafwyd adroddiad am weithgareddau'r clwb yn ystod 2010.

Ers y Cyfarfod Blynyddol y llynedd yn yr Oakeley ym Maentwrog bu'n flwyddyn brysur, hefo teithiau a gweithgareddau yn y gogledd a'r de, diwrnodau dringo a sgramblo, diwrnodau hyfforddi a beicio mynydd.

Yn ychwanegol fe gafwyd sawl gweithgaredd preswyl:

Penwythnos Hyfforddi Rhyd Ddu ddechrau Ionawr - diolch i Morfudd am drefnu.

Noson Gymdeithasol yn yr Hen Felin yn Abergwyngregyn, Chwefror 5ed - diolch i Siân Shakespear am drefnu.

Wythnos Yr Alban gyda chriw o 24 yn aros yn ardal Fort William, yn anlwcus hefo'r tywydd, minnau'n anlwcus hefo 'nghefn ac un aelod yn hynod o anlwcus yn syrthio drwy fargod eira ar un o gribau'r Mamores - mae Anita'n gwerthfawrogi'r holl gefnogaeth a gafodd yn dilyn ei damwain a braf yw ei gweld yn mendio.

Ddechrau **Ebrill** trefnwyd cwrs map a chwmpawd ar y Glyderau - diolch i Arwel a Myfyr am gyd-drefnu - sawl un wedi holi am gwrs tebyg yn y dyfodol.

Penwythnos preswyl Bro Gwyr ddiwedd Mai gyda chriw da yn aros ym Mhorth Einon - diolch i Guto am drefnu'r gweithgareddau.

Ddechrau **Mehefin** fe drefnwyd 9 taith gerdded o amgylch ffiniau dalgylch Eisteddfod yr Urdd Eryri 2012 er cof am Llew Gwent ac fe lwyddwyd i godi tros £2,500 i gronfa'r Eisteddfod. Diolch i Alun Roberts am drefnu ac i'r holl arweinyddion am eu gofal.

Chafwyd dim stondin yn yr **Eisteddfod Genedlaethol** yn Wrecsam oherwydd bod y ddau fudiad a fu'n rhannu hefo ni yn y gorffennol yn methu fforddio'r gost eleni a phenderfynodd y Pwyllgor fod y swm o £1,400 yn ormod i'w dalu. Trefnwyd taith o'r Maes gan Gareth Williams - diolch iddo am drefnu.

Yn ystod mis **Medi** cafwyd diwrnod hyfforddi defnyddio rhaffau yng Nghapel Curig - diolch i Myfyr am drefnu.

Bu aelodau'r Clwb yn beicio mynydd - diolch i Alwen Williams a Gareth Roberts am drefnu.

Penwythnos Trefin 23-25ain o Fedi. Diolch i Raymond Griffiths. am drefnu'r penwythnos - llwyddiant mawr gyda 25 yn cerdded ar y Sul, a chriw yn dringo ar y Sadwrn.

Diolchodd Maldwyn i'r aelodau hynny a oedd yn arwain gweithgareddau'r clwb yn y de a'r gogledd ac i'w gyd swyddogion ar y pwyllgor. Ymddiheurodd bod y rhaglenni yn cael eu gyrru allan yn hwyr ar adegau. Roedd yn ei gweld yn anodd cyflawni ei ddyletswyddau ar hyn o bryd a hoffai weld rhywun arall yn ymgymryd a'r swydd

6. Adroddiad Ysgrifennydd y Wefan.

Bu defnydd cyson o'r tudalennau gwe dros y flwyddyn. Derbyniwyd adroddiadau a lluniau am y rhan fwyaf o'r gweithgareddau. Diolch i bawb yrrodd ddeunydd i mewn. Mae llwyddiant y wefan yn llwyr ddibynnol ar gyfraniadau'r aelodau. Gwneir pob ymdrech i ddiweddarau cynnwys y wefan o leiaf unwaith yr wythnos.

Yn ystod y flwyddyn ers y cyfarfod cyffredinol diwethaf cafwyd dros 9,000 o ymweliadau gan 1,907 o unigolion yn gyson. Daeth 57% o'r ymweliadau drwy safleoedd archwilio, megis Google. Roedd 36% yn ymweliadau uniongyrchol - h.y. yr ymwelydd yn gyfarwydd â'r wefan. Daeth 76% o'r ymweliadau o beiriannau'n defnyddio 'Windows', 22% o beiriannau 'Mac' a 2% o ffonau symudol. Er bod y mwyafrif o'r ymwelwyr wedi eu lleoli yng Nghymru rhoed diddordeb byd-eang hefyd o 18 o wledydd eraill cyn belled â Brasil, Seland Newydd, Awstralia, UDA a Chanada.

Tyfodd ein tudalen Gweplyfr (Facebook) mewn poblogrwydd hefyd ac anogwyd yr aelodau i ddefnyddio'r safle hon i bwrsasau megis cynnal trafodaethau, holi am rannu car, dangos ambell lun ayyb. Bellach, mae 62 o ddefnyddwyr cyson - ambell i ymwelydd, eto, yn dod o bellafodd byd. Mae 107 o bobl wedi mynegi 'hoffter' o'r cynnwys.

Trafodwyd creu safle fforwm ar wahân i'r Clwb. Adroddwyd y byddai sefydlu darpariaeth o'r fath yn gostus ac y gallai fod yn drafferthus hefyd. Gan fod ein tudalen Gweplyfr yn ateb union yr un pwrpas - a hynny heb ddim costau na thrafferth gweinyddu - anogwyd aelodau i ddefnyddio'r cyfrwng hwnnw i gynnal trafodaethau a gwneud sylwadau. Does dim rhaid ymgymryd ag unrhyw weithgaredd arall ar y safle hwnnw, os na ddymunir hynny. Cytunwyd y byddid yn rhoi manylion pellach am y defnydd o'r Gweplyfr ar wefan y Clwb (mae dolen i'r Gweplyfr yna yn barod).

Anogwyd aelodau i barhau i anfon adroddiadau cyson ar gyfer y wefan, gan fod hwn yn gyfrwng defnyddiol iawn i hysbysu'r byd am weithgareddau'r Clwb ac i ddenu rhagor o aelodau.'

7. Adroddiad y Trysorydd.

Adroddwyd bod yna 312 o aelodau. Cyflwynwyd adroddiad ariannol ar gyfer 2010-2011 a oedd yna dangos bod gan y clwb oddeutu £8,500 o arian mewn llaw.

Derbyniwyd yr adroddiad yn unfrydol.

8. Swyddogion y Clwb

Etholwyd y swyddogion canlynol:

Trysorydd : Gareth E Roberts

Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth : Iolo Roberts

Ysgrifennydd Gweithgareddau : Maldwyn Roberts*

Ysgrifennydd y Wefan : Iolo ap Gwynn

*Nododd Maldwyn y byddai'n hoffi gweld rhywun arall yn ymgymryd a'r swydd yma erbyn y cyfarfod nesaf. Bu yn y swydd ers saith mlynedd ac oherwydd pwysau gwaith yn ei gweld yn anodd ymdopi.

Ethol Aelodau'r Pwyllgor : Yn sgil sylwadau blaenorol yr Ysgrifennydd Cyffredinol cytunwyd gofyn i'r swyddogion drefnu aelodaeth y pwyllgor am y flwyddyn i ddod.

9. Archwilydd

Penodwyd Raymond Griffiths fel **Archwilydd**.

Ni ddaeth unrhyw gynnig ffurfiol i law.

Yn dilyn y cinio cafwyd cyflwyniad gan Elfyn Jones o'r Cyngor Mynydda Prydeinig, yr unig swyddog yn y mudiad sydd yn siarad Cymraeg. Roedd ei gyflwyniad mewn dwy ran. Yn y rhan gyntaf rhoddodd amlinelliad o waith y CMP ac yn yr ail dangosodd sleidiau o'i daith ddringo yng ngwlad Mali yng nghanolbarth Affrica. Mwynhawyd ei hanesion yn arw er bod stumog ambell un yn troi o glywed son am y nadroedd! Diolchwyd iddo ar y diwedd gan Siân Shakespear.